

Cyfarfod:	Bwrdd Pensiwn
Dyddiad:	07/03/2022
Teitl:	Prisiad 2022: Rhagdybiaethau Actiwaraidd
Awdur:	Dafydd L Edwards – Cyfarwyddwr y Gronfa
Argymhelliad:	Er gwybodaeth yn unig

Cyflwyniad

1. Bydd aelodau'n cofio bod adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor ar 21 Hydref 2021 yn gosod yr amserlen ar gyfer prisiad y Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar yr aelodaeth ar 31 Mawrth 2022, gyda chyfraddau cyfraniadau cyflogwyr newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023. I bob pwrpas, y prisiad ffurfiol yw ymarfer rheoli risg mwyaf cynhwysfawr a hanfodol y Gronfa.
2. Fel rhan o'r prisiad, mae'r Gronfa'n adolygu ei strategaeth ariannu a'i chynlluniau cyllido. Elfen allweddol o'r strategaeth ariannu yw'r rhagdybiaethau actiwaraidd sylfaenol. Dylai'r rhagdybiaethau hyn geisio adlewyrchu disgwyliadau'r Gronfa yn y dyfodol a lefel archwaeth risg. Gall y ddau beth hyn newid dros amser wrth i fwy o wybodaeth ddod ar gael, mae'r amgylchedd y mae'r Gronfa yn gweithredu ynddo yn esblygu a'r cydbwysedd rhwng darbodusrwydd a fforddiadwyedd yn symud yng ngoleuni ffactorau allanol. Felly, mae'n angenrheidiol ac yn arfer da i adolygu'r rhagdybiaethau actiwaraidd a fabwysiadwyd gan y Gronfa fel rhan o bob prisiad teirblynyddol.
3. Cymeradwywyd y tybiaethau actiwaraidd a restrir yn yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor Pensiynau ar 17 Ionawr 2022 ac maent wedi'u cynnwys ar yr agenda heddiw er gwybodaeth ichi.

Beth yw pwrpas y Prisiad?

4. Pwrpas y prisiad yw:
 - adolygu'r strategaeth ariannu gyfredol yng ngoleuni'r newidiadau i'r amgylchedd economaidd, rheoliadol a chymdeithasol;
 - gosod cyfradd cyfrannu ar gyfer pob cyflogwr a delir (yn yr achos hwn) rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2026, pryd y bydd cyfraddau'n cael eu hail-asesu ar brisiad 2025; a
 - gwirio'r sefyllfa ariannu gyfredol.
5. Er mwyn pennu'r lefel ofynnol o gyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol, rhaid i ni gynnal dau ragamcan:
 - Rhagamcaniad buddion: mae hyn yn rhagamcanu'r buddion a delir i aelodau'r cynllun ym mhob blwyddyn i ddod (gan ystyried buddion a gronnwyd hyd at y dyddiad prisio a'r rhai a fydd yn parhau i gael eu cronni ar ôl y dyddiad prisio).

- Rhagamcaniad asedau: mae hyn yn rhagamcanu swm asedau'r Gronfa ym mhob blwyddyn i ddod, gan ystyried cyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr yn y dyfodol, taliadau buddion yn y dyfodol (o'r rhagamcaniad buddion) a'r enillion buddsoddi a enillir ar yr asedau.
6. Yna gosodir y cyfraddau cyfrannu fel bod, ar ddiwedd cyfnod y cytunwyd arno (y gorwel amser cyllido), mae ddigon o asedau (o'r rhagamcaniad asedau) i gwrdd â'r taliadau buddion yn y dyfodol (o'r rhagamcanion buddion) nifer uchel digonol o ganlyniadau economaidd posibl yn y dyfodol. Dyma'r amcan cyllido.

Pa ragdybiaethau actiwaraid sydd eu hangen?

7. Er mwyn cyflawni'r prisiad, mae angen i ni wneud rhagdybiaethau ynghylch maint ac amseriad y buddion yn y dyfodol a delir o'r Gronfa a'r enillion buddsoddi yn y dyfodol a gynhyrchir gan asedau'r Gronfa. Mae'r rhagdybiaethau'n disgyn i ddau gategori eang - rhagdybiaethau ariannol a rhagdybiaethau demograffig.
8. Mae'r tablau isod yn nodi argymhelliad Actiwari y Gronfa ar gyfer pob rhagdybiaeth brisio allweddol, ynghyd â rhesymeg ategol.
9. Mae swyddogion wedi derbyn cynigion gan Actiwari'r Gronfa, Hymans Robertson, yn nodi opsiynau ar sut i adeiladu a gosod rhagdybiaethau prasio. Mae'r cynigion a nodir isod hefyd wedi'u trafod gyda Chadeirydd y Pwyllgor. Nodir manylion llawn y rhagdybiaethau yn adroddiad yr Actiwari sydd wedi'u hamgáu yma fel Atodiad, gan roi gwybodaeth gefndir bellach am y rhagdybiaethau hyn.

Rhagdybiaethau Ariannol

10. Mae Hymans yn defnyddio dull "seiliedig ar risg" i gyfrifo'r amcanestyniadau budd-dal ac asedau a gosod y rhagdybiaethau ariannol sylfaenol. O dan y dull hwn, mae Hymans yn defnyddio generadur senario economaidd (gelwir generadur perchnogol Hymans Robertson yn Wasanaeth Senario Economaidd - ESS) i gynhyrchu 5,000 o wahanol efelychiadau o dybiaethau ariannol i'r dyfodol. Mae hyn yn caniatáu iddynt gynhyrchu dosbarthiad o amcanestyniadau buddion ac asedau i'r dyfodol fel y gall holl randdeiliaid y Gronfa ddeall risg yn well. Mae'r rhagdybiaethau ym mhob senario yn amrywio yn ôl blwyddyn h.y. nid ydynt yn 'fflat', felly maent yn gynrychiolaeth well o realiti nag un dybiaeth linellol.

Rhagdybiaeth	Rhagdybiaeth 2019	Rhagdybiaeth 2022	Rheswm dros y newid
Enillion Buddsoddi yn y Dyfodol	Yn seiliedig ar fodel ESS Hymans Robertson	Yn unol â 2019 ond wedi'i ddiweddarau i raddnodi'r farchnad ddiweddaraf	Dim newid, lefel y darbodusrwydd (Ymyl darbodusrwydd 75%) yn gyson â phrisiad 2019. Mae disgwyliadau enillion dosbarth asedau yn fras debyg i 2019.
Gyfradd ddisgownt	1.7% y flwyddyn yn uwch na'r gyfradd ddi-risg	2.0% y flwyddyn yn uwch na'r gyfradd ddi-risg	Mae cadw'r un lefel o ddarbodusrwydd, sy'n gyson â phrisiad 2019, yn arwain at gynnydd ymylol yn y Gyfradd

	Yn seiliedig ar ymyl darbodusrwydd o 75%	Mae'r un ffin darbodusrwydd o 75%, yn arwain at gynnydd ymylol	disgownt o 1.7% yn 2019 i 2.0% ar gyfer 2022.
Cynyddiad Buddion Pensiwn	Yn seiliedig ar fodel ESS Hymans Robertson f	Yn unol â 2019 ond wedi'i ddiweddarau i raddnodi'r farchnad ddiweddaraf	Dim newid sylweddol, lefel darbodusrwydd yn gyson â phrasiad 2019, er bod disgwyliadau chwyddiant ychydig yn uwch (c.0.2-0.3% y.f.) na 2019 oherwydd y rhagolygon economaidd cyfredol.
Cynnydd mewn Cyflog	0.3% yn uwch na chwyddiant CPI	0.5% yn uwch na chwyddiant CPI (nodwch hefyd fod disgwyliadau chwyddiant CPI bellach yn uwch na 2019)	Mae rhagdybiaeth arfaethedig 2022 yn unol â disgwyliadau tymor hir 2019. Yn 2019, caniatawyd ataliaeth cyflog disgwylidig tymor byr. Ar gyfer 2022, ni roddir lwfans ar gyfer ataliad cyflog tymor byr.

Rhagdybiaethau Demograffig

Rhagdybiaeth	Rhagdybiaeth 2019	Rhagdybiaeth 2022	Rheswm dros y newid
Hirhoedledd Gwaelodlin	Yn seiliedig ar ddadansoddiad Club Vita ac yn adlewyrchu nodweddion aelodau unigol	Yn seiliedig ar ddadansoddiad Club Vita yn unol â 2019, ond wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r profiad marwolaethau diweddaraf a arsylwyd nad yw'n gysylltiedig â Covid	Ni ragwelir unrhyw newid sylweddol. Wedi'i deilwra i aelodaeth y Gronfa i leihau'r risg y bydd profiad gwirioneddol yn sylweddol wahanol i'r disgwyliadau.
Gwelliannau mewn Hirhoedledd yn y Dyfodol	Model CMI 2018 Roedd llyfnhau yn berthnasol i brofiad diweddar Cyfradd gwella tymor hir = 1.25% y flwyddyn	Model CMI 2021 Ni roddir pwysau ar ddata 2020/21, ac addasiad i adlewyrchu proffil aelodaeth Cyfradd gwella tymor hir = 1.5% y flwyddyn	Mae'r fersiwn ddiweddaraf o fodel CMI yn adlewyrchu profiad mwy diweddar. Osgoi rhagamcanion tymor hir yn cael eu heffeithio'n ormodol gan brofiad tymor byr Covid-19. Gan gychwyn y rhagamcanion o bwynt is nag yn 2019 (oherwydd y profiad marwolaethau trymach diweddar), mae'r cynnydd o 1.25% i 1.5% yn sicrhau bod disgwyliadau oes yn aros yn debyg yn fras i'n rhagdybiaeth yn 2019.
Alldyniadau	Yn seiliedig ar ddadansoddiad o brofiad ar lefel genedlaethol, mae Hymans wedi cynyddu eu rhagdybiaeth genedlaethol ar y tebygolrwydd o dynnu'n ôl, gan adlewyrchu tueddiadau o fwy o symudedd swyddi. Mae dadansoddiad penodol i'r gronfa yma yn dangos bod y tynnu allan wedi bod yn is, felly mae Hymans yn cynnig graddio i lawr o'u cynnydd a dybir yn genedlaethol (80% o'r cynnydd ar gyfer dynion llawn amser, 80% ar gyfer merched rhan-amser, a 75% ar gyfer dynion rhan-amser, ond dim graddio ar gyfer merched llawn amser, i adlewyrchu profiad lleol).		

Ymddeoliadau salwch	Dim newid o dybiaeth prasio 2019. Er bod nifer yr achosion o ymddeoliadau salwch ychydig yn is na'r disgwyl, mae Hymans yn cynnig gadael y dybiaeth hon ar ei lefel bresennol, yng ngoleuni'r cynnydd posibl mewn ymddeoliadau salwch o ganlyniad i Covid-19.		
Graddfa gyflog hyrwyddol	Mae dadansoddiad 'Hymans' o aelodaeth ein Cronfa yn dangos bod codiadau cyflog wedi bod yn uwch na'r rhagdybiaeth ddiofyn genedlaethol, ond cynigir parhau gyda'r 0.5% yn uwch na lefel CPI, gan nad yw'r duedd hon yn debygol o barhau yn y tymor hir.		
Marwolaeth cyn ymddeol	Mae Hymans yn disgwyl i'r gyfradd marwolaeth mewn gwasanaeth ostwng ar bob prisiad. Felly, mae'r gyfradd marwolaeth ddiofyn disgwyledig yn cael ei gostwng 20% ar gyfer prisiad 2022.		
Aelodaeth Opsiwn 50:50	0.5%	0.5%	Dim newid, gan adlewyrchu'r nifer isel o aelodau parhaus sy'n cymryd rhan yn yr opsiwn yma.
Oed ymddeol	Gan dybio bod aelodau'r cynllun yn ymddeol ar yr oedran cynharaf na fydd unrhyw fuddion yn cael eu lleihau. Mae'r addasiad hwn yn adlewyrchu profiad sy'n dod i'r amlwg, ymhellach i newidiadau i fuddion, ac yn lleihau rhwymedigaethau oddeutu 1%.		
Cymudo Arian	50% cyn 2008, 75% ar ôl 2008	65% o'r uchafswm arian parod di-dreth	Mae symleiddio cyfrifiad a thybiaeth yn adlewyrchu profiad aelodaeth diweddar ein Cronfa.
Cyfran yn gadael dibynnydd	Yn seiliedig ar ddadansoddiad Club Vita o'n Cronfa, i sicrhau bod y dybiaeth gyfredol yn adlewyrchu profiad aelodaeth y Gronfa		

11. Bydd y rhagdybiaethau hyn nawr yn cael eu ffurfioli mewn fersiwn wedi'i diweddarau o'r Datganiad Strategaeth Ariannu ym mis Ionawr 2023 (drafft yn yr arfaeth) ac ym mis Mawrth 2023 (fersiwn derfynol), fel rhan o broses brisio 2022.